

Tasg 3

Ymgyrch arbennig

Cynlluniwch ymgyrch arbennig yn yr ardal i geisio codi proffil yr iaith Gymraeg ac ysbrydoli pobl i siarad Cymraeg.

Meddyliwch am y syniadau'n gyntaf – beth allech chi ei wneud?

Mewn grŵp:

1. Trafodwch y syniadau a dewiswch yr un gorau.
2. Trafodwch y manylion.
Mae help i chi ar y dudalen nesaf.

Ar ôl trafod:

3. Bydd pob grŵp yn paratoi cyflwyniad am ei syniad.
Rhaid i bawb yn y grŵp gyfrannu a siarad.
Rhaid i aelodau pob grŵp geisio perswadio'r gwrandawyr mai eu syniad nhw yw'r un gorau.
4. Ar ôl gwranddo ar bob cyflwyniad, pleidleisiwch dros y syniad gorau.
5. Gwnewch daflen i sôn am eich ymgyrch chi.

